# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

{my}dentist, Llanrhymni / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad:

17 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi:

18 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



Digital ISBN 978-1-78859-374-8



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 22

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 23

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad, y rhoddwyd rhybudd ohono ymlaen llaw, o {my}dentist yn 62 Countisbury Avenue, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5SN, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro ar 17 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni’r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod {my}dentist Llanrhymni yn bodloni'r safonau angenrheidiol ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch; bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd ganddo hefyd ystod o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau y cyflenwir gofal mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd cofnodion cleifion yn drwyadl a'r gofal wedi ei ddogfennu'n dda
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a'r cleifion
- Dywedodd y staff wrthym y teimlent fod uwch-aelodau o staff y practis a'r tîm ehangach yn eu cefnogi

Rydym wedi argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis weithredu system briodol i sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol ac amserol yn unol ag argymhellion proffesiynol
- Roedd rhai gwelliannau'n ofynnol yn y modd y caiff gwastraff ei storio mewn un ystafell driniaeth
- Dylai'r practis sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ac yn gyfredol ar gyfer yr holl staff perthnasol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae {my}dentist yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanrhymni yng Nghaerdydd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae gan y practis dîm staff sy’n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd rhan-amser, tair nyrs ddeintyddol, tri derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Buom yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom fod y tîm cyfan yn trin y cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron, y mwyafrif ohonynt gan gleifion a fu'n defnyddio'r practis deintyddol am fwy na 2 flynedd. Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'n iawn fel y mae, da iawn wir"*
>
> *"Dim angen gwelliannau"*
>
> *"All e ddim"*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Eu diben oedd annog y cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a'u dannedd mewn cyflwr iach.

Roedd y practis yn cadarnhau'r pwyslais a roddir ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch safleoedd di-fwg, trwy arddangos arwydd 'dim ysmygu' yn y man aros.

### Gofal ag urddas

Sylwom fod y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn dweud eu bod yn cael eu trin â pharch dyladwy yn ystod eu hymweliadau â'r practis.

Dywedodd staff y practis wrthym y gallent ddarparu preifatrwydd i'r cleifion os oeddent yn dymuno trafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol allan o glyw cleifion eraill. Fodd bynnag, yn yr holiaduron, awgrymodd un o'r cleifion fod angen mwy o breifatrwydd yn y dderbynfa, pan oedd cleifion yn siarad â'r staff.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu ystod o driniaethau deintyddol preifat a GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau'r triniaethau deintyddol preifat yn cael ei harddangos yn y man aros, ynghyd â'r tâl a godid am driniaethau deintyddol GIG. Felly, roedd gwybodaeth ar gael yn hwylus i'r cleifion am yr hyn y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd mwyafrif o'r cleifion a lenwodd yr holiadur eu bod yn cael eglurhad o'r gost bob amser cyn cael y driniaeth, ac yr oedd mwyafrif yn cytuno eu bod yn deall sut y cyfrifid cost y driniaeth.

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion a lenwodd yr holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod triniaethau'n cael eu cynllunio a'r opsiynau'n cael eu nodi, yn y sampl o gofnodion cleifion a ystyriwyd gennym. Roedd hyn yn cadarnhau bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys i'r graddau a ddymunent mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a lenwodd holiadur AGIC yn cadarnhau ei fod yn siaradwr Cymraeg, ond dywedodd pob un o'r ymatebwyr y gallent siarad â'r staff yn yr iaith a ddymunent.

## Gofal amserol

Cawsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion mewn da bryd am unrhyw oedi neu ohirio apwyntiadau.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a lenwodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Darperid y rhif cyswllt ffôn at ddefnydd cleifion y tu allan i oriau ar beiriant ateb y practis. Arddangosid y rhif hwnnw hefyd ar ddrws y fynedfa, fel bod modd i gleifion gael mynediad at ofal deintyddol mewn argyfwng.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Buom yn ystyried sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth wedi eu cofnodi, a chydsyniad i'r driniaeth wedi ei sicrhau oddi wrth bob claf.

Roedd mwyafrif helaeth o'r cleifion a lenwodd holiadur yn cadarnhau bod eu deintydd yn eu holi ynglŷn â'u hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Sylwom fod y practis wedi mabwysiadu polisi penodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Golygai hynny fod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg.

Roedd gan y practis dair ystafell driniaeth, pob un ohonynt ar lawr isaf yr adeilad. Gellid defnyddio ramp symudol i gael mynediad i'r dderbynfa, a gallai'r practis, felly, gynnig gwasanaethau deintyddol i gleifion ag anawsterau symud, neu rai mewn cadair olwyn yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Roedd toiled ar gael at ddefnydd cleifion, ond nid oedd yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn. Dywedodd y staff wrthym na fu modd cynnwys toiled a fyddai'n addas ar gyfer cadair olwyn, oherwydd bod adeilad y practis yn rhy fach.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cwynion. Arddangosid gwybodaeth i gleifion ar sut i fynegi pryder (neu gŵyn) yn y dderbynfa. Fodd bynnag, tri yn unig o'r cleifion a lenwodd holiadur a ddywedodd wrthym na wyddent sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a gânt.

Roedd systemau wedi eu sefydlu i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a geid yn y practis. Roedd y system gwynion (a elwid 'Clarity') wedi ei chysylltu â phrif swyddfa'r practis, er mwyn i'r sefydliad gael trosolwg ar yr

wybodaeth a ddeuai i law. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi'n rheolaidd er mwyn canfod unrhyw themâu cyffredin yn y cwynion, a gâi eu trafod wedyn â'r staff mewn cyfarfodydd tîm.

Roedd gan y practis system hefyd i gasglu adborth / safbwyntiau gan gleifion ynghylch y gwasanaeth. Ar adeg ein hymweliad, byddid yn anfon arolwg allan i'w lenwi gan y cleifion â rhif ffôn symudol, gan ofyn iddynt raddio eu profiad. Cyflwynid yr ymatebion i'r brif swyddfa, a pharatoid dadansoddiad ar gyfer y practis, fel y gallai weld ym mha feysydd yr oedd yn gwneud yn dda, ac ym mha feysydd y gallai wella.

Roedd modd i gleifion ddarparu adborth *ad hoc* ar slipiau sylwadau/ canmoliaeth a oedd ar gael yn y dderbynfa i'w llenwi gan gleifion. Ar ôl eu llenwi, trosglwyddid y slipiau i staff y dderbynfa i'w cadw'n ddiogel. Buom yn trafod y drefn hon â'r practis, gan awgrymu y gellid ystyried y broses ymhellach er mwyn sicrhau bod modd i gleifion ddarparu adborth yn ddienw. Cytunodd y practis i wneud hynny.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Buom yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safle'r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Roedd cofnodion cleifion wedi eu cadw'n fanwl ac yn dda, ac yn tystio bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio gyda'r bwriad o hybu diogelwch a lles y cleifion.

Arddangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Rhaid i'r practis sicrhau yr hyfforddir y staff ar gyfer adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a dadheintio, yn brydlon ac yn unol â'r canllawiau perthnasol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis yn ogystal â'r cleifion sy'n ymweld. Roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn.  Yn ystod ein harolygiad, canfuom ninnau fod y practis wedi ei gynnal mewn cyflwr da yn fewnol ac allanol, a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn gymen ac yn drefnus. Un eithriad i hyn oedd y bin yn ystafell driniaeth 3, nad oedd yn cau yn ddiogel ac felly'n peri bod ei gynnwys mewn golwg. Rydym yn argymell bod y practis yn rhoi sylw i hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn y cyfamser dylai'r practis sicrhau y gwaceir y bin yn ddi-oed pan fo'n llawn. Cytunodd rheolwr y practis y byddai'n gwneud hynny.

Sylwom fod profion wedi eu cynnal ar y dyfeisiau trydanol cludadwy o fewn y 12 mis diwethaf, gan helpu i sicrhau y gellir eu defnyddio'n ddiogel yn y practis

Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol, a bod contractau mewn grym ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) ac amheryglus a gynhyrchir gan y practis. Roedd cyfarpar gwahanu amalgam wedi ei osod yn y cadeiriau deintyddol, fel y gellid tynnu ymaith y gronynnau amalgam (sef deunydd o lenwadau deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o'r dŵr gwastraff er mwyn eu gwaredu'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael yn y practis, a gwelsom fod contract mewn grym ar gyfer cynnal yr offer tân. Sylwyd bod arwyddion diogelwch tân ym mhob rhan o'r practis.

Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu. Gwelsom fod data a gwybodaeth briodol ar gael ynglŷn â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a bod sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y bin gwastraff yn ystafell driniaeth 3 yn addas i'w ddefnyddio.

## Atal a rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion yn y practis rhag heintiadau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, oherwydd y dystiolaeth a welsom o'r camau a gymerir i atal heintiau. Enghreifftiau o hyn oedd:

- Ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol yn unol ag argymhelliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[1]

- Argaeledd cyfarpar diogelu personol (CDP) megis menig a ffedogau untro a gogls

- Roedd sinciau dynodedig ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio ac yn y tair ystafell driniaeth

- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u trawsgludo'n briodol rhwng yr ystafell ddadheintio a'r deintyddfeydd, a'r pecynnau wedi eu dyddio i ddangos erbyn pa bryd yr oedd rhaid eu defnyddio

- Roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r gofynion rheoli heintiau, yn unol â'r argymhellion yn WHTM 01-05

Canfuom fod y practis wedi sefydlu polisi ar ddiheintio; ac arddangoswyd proses ddiheintio drwyadl gan y staff.

Sylwom fod y staff, ac eithrio dau aelod, wedi cael hyfforddiant mewn rheoli heintiau, fel y mae WHTM 01-05 yn argymell. Rydym ninnau wedi argymell y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant priodol mewn dadheintio, yn unol ag WHTM 01-05. Cytunodd y practis i drefnu hynny.

Roedd un awtoclaf[2] ar gael at ddefnydd y practis, a gwelsom fod tystysgrif archwilio a oedd yn tystio bod yr awtoclaf yn ddiogel i'w ddefnyddio. Sylwom fod yr awtoclaf yn cael ei wirio'n ddyddiol, ac y cynhelir llyfrau log o'r profion a gynhelir arno, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Gwelsom hefyd fod y practis yn cynnal llyfr log o'r profion a gwblheir ar y glanhawr uwchsonig [3]. Sylwom,

---

[1] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau, drwy'u trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

[3] Dyfais lanhau a ddefnyddir i symud dyddodion oddi ar offerynnau a deunyddiau deintyddol trwy drawsyrru seindonnau amledd-uchel egni-uchel i gynhwysydd a lenwir â hylif,

fodd bynnag, fod rhai cofnodion o'r profion ffoil a wnaed ar y glanhawr uwchsonig yn absennol. Dywedodd aelodau o'r practis wrthym eu bod yn ymwybodol o'r diffyg hwnnw. Roeddent wedi cwblhau rhaglen o hyfforddiant yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod pa weithdrefnau oedd y rhai cywir, a pha ddogfennau y dylid eu cadw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant dadheintio yn unol ag WHTM 01-05

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau i ymateb i argyfyngau (mewn cysylltiad â chleifion). Canfuom fod y cyfarpar adfywio a'r cyffuriau argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio'n rheolaidd, i sicrhau eu bod yn parhau o fewn y dyddiadau a bennir arnynt ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant o fewn y 12 mis blaenorol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Canfuom, fodd bynnag, fod hyfforddiant dau aelod o'r staff yn anghyfoes. Hysbyswyd rheolwr y practis o'n canfyddiadau a gwnaed trefniadau i'r ddau aelod hynny o'r staff ddilyn hyfforddiant priodol yn ystod wythnos yr arolygiad.

Canfuom fod y practis wedi penodi person, a adwaenid wrth ei enw, a oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf.

## Diogelu plant ac oedolion mewn risg

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo lles a diogelwch plant ac oedolion a allai fod mewn risg. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar waith, ac yr oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu.

Cafwyd cadarnhad gan y staff fod trefniadau addas wedi eu gwneud, a fyddai'n caniatáu iddynt godi unrhyw bryderon, a'u bod hwythau, pe bai angen, yn teimlo y gallent wneud hynny.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar y cyfan, cawsom fod y tair ystafell driniaeth yn lân, yn gymen ac mewn cyflwr da. Edrychom ar y cyfleusterau clinigol ym mhob ystafell driniaeth a chawsom eu bod i gyd yn cynnwys y cyfarpar priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn cael ei wasanaethu yn rheolaidd, i helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd trefniadau addas wedi eu gwneud hefyd ar gyfer defnyddio'r cyfarpar radiograffig yn ddiogel. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfoes diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio, ac yn bodloni'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod y practis yn sicrhau ansawdd y delweddau yn rheolaidd gan ddefnyddio offeryn archwilio dwyflynyddol, fel rhan o'i weithgarwch monitro sicrwydd ansawdd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y practis yn amcanu i wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i gleifion yn barhaus. Sylwom fod y practis wedi cynnal archwiliadau o reoli heintiau, cardiau cofnodi, presgripsiynu, canser geneuol a radiograffeg.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd y practis wedi trefnu unrhyw adolygiad gan gymheiriaid[4] ar gyfer ei staff clinigol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno proses o adolygu gan gymheiriaid, fel ffordd o nodi meysydd y gall y practis eu gwella, er budd y cleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cynlluniau wedi eu paratoi i gyflwyno proses o adolygu gan gymheiriaid erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod ffeiliau'r cleifion wedi eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch a chyfrinachedd data'r cleifion. Roedd y modd y caniateid mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel a gochelgar.

### Cadw cofnodion

[4] Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o'r 'safonau aur' yn y maes gwyddonol, sef proses sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ("cymheiriaid") werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gya'r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drylwyr, ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda'r bwriad o ddarparu'r gofal a thriniaethau gorau posibl.

Buom yn adolygu sampl o gofnodion cleifion a gwblhawyd gan y deintyddion. Ar y cyfan, cawsom fod ansawdd y cofnodion a gedwid a’r gofal cleifion yn dda iawn. Sylwom fod hanesion meddygol yn bresennol yr holl gofnodion a adolygwyd, a’u bod wedi eu diweddaru’n rheolaidd. Cynghorwyd y deintyddion i sicrhau bod yr hanesion wedi eu llofnodi gan y cleifion a’u dyddio. Roedd cyfarwyddiadau hylendid geneuol priodol wedi eu rhoi ym mhob achos, yn unol â’r canllawiau cenedlaethol. Ym mhob achos hefyd, roedd y cofnodion cleifion a adolygwyd yn cynnwys manylion priodol ar gyfer adnabod y claf, ei hanes deintyddol blaenorol a’r rheswm am ei bresenoldeb, a’r driniaeth a ddarparwyd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Buom yn ystyried y modd y rheolir ac yr arweinir gwasanaethau ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Buom hefyd yn ystyried y modd y mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith gan y practis, sy'n sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi, a chyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae {my}dentist Llanrhymni wedi bod yn darparu gwasanaethau deintyddol o'i safle presennol ers 2014.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol yn gyffredinol am reolaeth y practis o ddydd i ddydd, gyda chefnogaeth rheolwr ardal a thîm rheoli ehangach, fel rhan o'r grŵp practisau {my}dentist yng Nghymru a Lloegr. Roedd y staff yn amlwg yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau beunyddiol, a rhennid pob gwybodaeth berthnasol rhwng y practis a'i brif swyddfa. Pan welsom feysydd y gellid eu gwella, roedd rheolwr y practis yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r meysydd hynny yn ddiymdroi.

Dywedwyd wrthym, gan y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, y teimlent eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan bob aelod o dîm y practis. Roedd y staff yn teimlo hefyd fod cyfathrebu o fewn y practis yn dda. Gwelsom y cynhelid cyfarfodydd tîm yn rheolaidd; ond tan yn ddiweddar nid oedd y cyfarfodydd hyn wedi eu ffurfioli ac ni chedwid cofnodion. Roedd rheolwr y practis wedi cyflwyno system yn ddiweddar i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd tîm misol yn rheolaidd o hyn ymlaen.

Gwelsom fod ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y practis ar fin cyflwyno proses newydd, sef gosod un neu ddau o bolisïau gerbron pob cyfarfod tîm, i'w trafod gan y tîm cyfan. Byddai'n ofynnol wedyn i'r staff lofnodi'r polisi i ddangos eu bod wedi darllen a deall ei gynnwys.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis yn eu cynorthwyo ac yn eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Mae gan grŵp {my}dentist ei academi hyfforddi ei hun, y caiff yr holl staff ei defnyddio ac sy'n darparu hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Edrychom ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff, a chawsom fod y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd a 'gymeradwyir yn fawr' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Ni allai'r practis ddarparu tystysgrifau hyfforddiant rheoli heintiau yn achos rhai aelodau o'r staff. Dywedwyd wrthym nad oedd tystysgrifau o'r fath ar gael i'r aelodau hynny, er bod yr hyfforddiant wedi ei gwblhau. Rydym wedi argymell bod y practis yn sicrhau ac yn cadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol, fel tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi ei gyflawni.

Gwelsom fod y staff wedi cael arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn flaenorol, a bod cynlluniau datblygu personol wedi eu pennu o ganlyniad i'r arfarniadau hynny.

Sylwom fod y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemnio wedi ei drefnu.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Atgoffom ni'r practis y dylid arddangos y copïau gwreiddiol o'r tystysgrifau, ac nid llungopïau. Cytunodd y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y rhan fwyaf o'r clinigwyr a oedd yn gweithio yn y practis. Ar un o'r tystysgrifau, nid oeddem yn gallu cael cadarnhad o'r dyddiad. Mae'r rheoliadau deintyddiaeth breifat (Rheoliadau (Diwygio) Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011) yn ei gwneud yn ofynnol bod gan bob deintydd sy'n darparu

gwasanaethau deintyddol yng Nghymru dystysgrif DBS a ddyroddwyd yn ystod y tair blynedd flaenorol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael ac yn cadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff, fel tystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd, a threfnu bod y tystysgrifau hynny ar gael i'w harolygu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac wedi eu cofrestru gydag AGIC dystysgrif DBS gyfredol, a threfnu bod y dystysgrif honno ar gael i'w harolygu gan AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (neu’r effaith bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni allai’r practis ddangos bod dau aelod o’r staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. | Golygai hyn na allai’r practis ddangos bod yr holl staff wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i gyflenwi adfywio cardio-pwlmonaidd pe digwyddai argyfwng mewn cysylltiad â chlaf. | Hysbyswyd rheolwr y practis o’n canfyddiadau ar lafar ar ddiwrnod yr arolygiad. | Cafwyd cadarnhad gan reolwr y practis fod hyfforddiant priodol wedi ei drefnu i’r ddau aelod o staff gwblhau hyfforddiant priodol yn ystod wythnos yr arolygiad. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: {my}dentist, Llanrhymni

## Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad::

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: {my}dentist, Llanrhymni

## Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd ar gyfer eu gwella yn ystod yr arolygiad | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod y bin gwastraff yn ystafell driniaeth 3 yn addas i'w ddefnyddio | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Cysylltu â'n hadran gyfleusterau a thrwsio'r bin. | Leah Llewellyn | 31/8/17 |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant dadheintio perthnasol yn unol ag WHTM 01-05 | 2.4 Atal a rheoli heintiau (ARhH) a dadheintio | Y staff i gyd yn gyfoes bellach o ran eu hyfforddiant WHTM 01-05 . | Leah Llewellyn | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael ac yn cadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff, fel tystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd, a threfnu bod y tystysgrifau hynny ar gael i'w harolygu. | 7.1 Gweithlu | Mae'r deintyddion wedi bod ar eu cwrs CPR. Pob hyfforddiant arall wedi ei gwblhau. | Leah Llewellyn | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac wedi eu cofrestru gydag AGIC dystysgrif DBS gyfredol, a threfnu bod y dystysgrif honno ar gael i'w harolygu gan AGIC | | Mae gennyf wiriadau DBS cyfredol ar gyfer pob deintydd,. | Leah Llewellyn | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Leah Llewellyn**

**Swydd:** **Rheolwr Practis**

**Dyddiad:** **22 Awst 2017**